

**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**  
**Gwyndy, Bryn croes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.**  
**Tel: 01758 730357**

8fed Mai, 2019.

Annwyl Aelod,

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor **NOS LUN NESAF, 13eg MAI, 2019, am 7.30 y.h. YN NEUADD GOFFA SARN**, a gwahoddir chwi i fod yn bresennol.

**R H A G L E N**

1. **I GYFLWYNO YMDDIHEURIADAU**
2. **I ETHOL CADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2019/20**
3. **I ETHOL IS-GADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2019/20 (o Ward Sarn Mellteyrn)**
4. **CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR  
A GYNHALIWYD 14eg MAI, 2018**

Copi'n amgaeedig.

"A"

5. **I GYFLWYNO ADRODDIADAU GAN:**
  - (a) Y Cadeirydd am y flwyddyn 2018/19 - Y Cynghorydd Glenys Williams
  - (b) Y Clarc
  - (c) Aelod Cyngor Gwynedd - Y Cynghorydd Gareth Williams
  - (ch) Y Cynghorydd Mrs. Carys Evans - cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Pont-y-Gôf

6. **MANTOLEN ARIANNOL Y CYNGOR A'R FYNWENT AM Y FLWYDDYN YN  
DIWEDDU 31ain MAWRTH, 2019**

Copi'n amgaeedig.

"B"

7. **CYNRYCHIOLWYR**

**I ethol cynrychiolwyr i wasanaethau ar y canlynol - rhestrir yr aelodau presennol:**

**Is-bwyllgor y Fynwent:** Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Ifor Owen, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts ynghyd â Chadeirydd y flwyddyn yn rhinwedd ei swydd.

**Is-bwyllgor Bwyllgor Cynllunio:** Cadeirydd y Cyngor ynghyd âg aelodau'r Ward lle bo'r cais.

**Un Llais Cymru** - Y Cyngorwyr David Brunelli ag Elin Hughes.

**Yn gywir,**



**Clarc**

**AELODAETH Y CYNGOR  
Y CYNGHORWYR**

David Brunelli  
Gwenan Griffith  
Glyn Roberts  
Glenys Williams

Carys H. Evans  
Dylan Parry Jones  
Michael Strain  
Siôn Williams

Elin Hughes  
Ifor Owen  
Carys E. Williams

**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**  
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.  
Teleffon: Botwnnog 730357

8fed Mai, 2019.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor **NOS LUN NESAF, 13eg MAI, 2019, yn Neuadd Goffa Sarn**, yn dilyn y Cyfarfod Blynnyddol.

**R H A G L E N**

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

2. **YMDDIHEURIADAU**

3. **O DDRWS I DDRWS**

Bydd Mrs. Meinir Jones, O Ddrws i Ddrws' yn bresennol yn y cyfarfod.  
(Nodyn – yn dilyn penderfyniad y Cyngor mis Ebrill penderfynwyd gwahodd Mrs. Jones i egluro cefndir y cais am gyfraniad ariannol o £500. Er gwybodaeth i chwi amgaeaf gopi o'r cais hwn gyda'r rhaglen).  
"A"

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn ffurflenni.

5. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 8fed EBRILL, 2019**

Copi'n amgaeedig. "B"

I drafod unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

6. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

I ystyried unrhyw gais ddaw i law cyn cyfarfod o'r Cyngor.

7. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

(a) A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw?

(b) Atebion gan Beiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, i gwynion anfonwyd i'w sylw ym mis Mawrth (atebiad i law ddiwrnod ar ol cyfarfod diwethaf o'r Cyngor) ac hefyd materion yn dilyn cyfarfod Ebrill.

Copi'n amgaeedig. "C"

(c) Cais am symud arwydd 30 mya ym Motwnnog – Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir.

8. **MATERION IECHYD**

A oes unrhyw fater angen ei anfon ymlaen i Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru?

9. **AWDURDOD I DALU**

I awdurdodi'r taliadau a ganlyn ac unrhyw daliad arall a ddaw yn ddyledus cyn noson y Cyngor.

Cyngor Gwynedd:

Gosod a llenwi bin halen ar Allt Coch Moel, Bryncroes

£182.49 + TAW

Llenwi bin halen ger Pendref, Sarn Mellteyrn

£ 55.20 + TAW

Yn gywir,



Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR  
Y CYNGHORWYR**

David Brunelli  
Gwenan Griffith  
Glyn Roberts  
Glenys Williams

Carys H. Evans  
Dylan Parry Jones  
Michael Strain  
Siôn Williams

Elin Hughes  
Ifor Owen  
Carys E. Williams